

Senedd Ewrop – Pwyllgor ar Ddiwylliant ac Addysg

Gwrandawriad cyhoeddus ar “Oblygiadau Brexit i Ddiwylliant ac Addysg” 21 Mehefin 2017

Cyflwyniad gan Eluned Haf, Pennaeth Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

Pnawn da, bon apre midi, good afternoon, diolch i aelodau’r pwyllgor am roi’r cyfle i mi a’ m sefydliad roi cyflwyniad i chi heddiw. Fy enw yw Eluned Haf a fi yw Pennaeth Celfyddydau Rhyngwladol Cymru sef cangen ryngwladol Cyngor Celfyddydau Cymru, corff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru. Siaradaf ag awdurdod Cyngor Celfyddydau Cymru, fy nghyflogwr, y cafodd ei ymateb i ganlyniad Refferendwm yr UE gryn gyhoeddusrwydd.

Mae Brexit yn cael effaith sylweddol ar ddiwylliant a chreadigrwydd, nid yn unig yn y DU ond yn Ewrop. Gobeithio y gallaf gyfeirio at rywfaint o’r effaith honno a gwneud cyfiawnder â hynny yn y 10 munud sydd gennyf.

Byddaf yn canolbwyntio ar dri maes lle ceir effaith bosibl:

- ar bobl a dinasyddiaeth;
- ar raglenni Ewropeaidd;
- ar yr economi greadigol ac ehangach

Fodd bynnag, mae angen rhywfaint o gyd-destun yn gyntaf.

Cymru yw un o bedair gwlad y DU sydd wedi'i lleoli ar ei harfordir gorllewinol.

Rhannwn ein treftadaeth ddiwylliannol Geltaidd â gwledydd arc Atlantig Ewrop

a hefyd â thapestri cyfoethog diwylliannau'r DU. Rydym yn wlad ddwyieithog.

Mae'r Gymraeg yn iaith leiafrifol sy'n rhan o Rwydwaith yr UE i Hyrwyddo

Amrywiaeth leithyddol.

Ond os yw ein hunaniaeth yn un gymhleth, felly hefyd y mae'r strwythur

llywodraethu sy'n sail i wledydd y DU, hyd yn oed cyn Brexit!

Yn y DU, mae polisi diwylliannol yn fater datganoledig. Felly, mae pedwar polisi

diwylliannol cenedlaethol a lluo o sefydliadau yn gyfrifol am eu cyflawni. Mae

Brexit wedi rhoi amlygrwydd i'r cymhlethdod hwn, felly rydym yn ddiolchgar

am fentrau gan y Ffederasiwn Diwydiannau Creadigol a'r British Council sydd

wedi dwyn lleisiau ynghyd o bob cwr o'r DU a'r UE.

Mae ein sectorau yn gynhenid gysylltiedig – mae pobl greadigol yn ffynnu ar

gyfnewid syniadau a gwybodaeth. Ceir nifer fawr o rwydweithiau a rhaglenni

Ewropeaidd a rhyngwladol bellach – fel Culture Action Europe, On the Move neu Literature Across Frontiers – sy'n cysylltu'r DU a'n cydweithwyr Ewropeaidd. Mae cynnal y dull cydweithredol hwn o fudd i bawb.

Dengys arolygon dro ar ôl tro fod y sector yn llwyr ymrwymedig i gydweithrediad rhyngwladol – yn Ewropeaidd yn ei chalon ac o ran ysbryd. Rydym yn derbyn bod Brexit yn digwydd, ond y nod yn awr, wrth i gydberthnasau gael eu cyd-drafod o'r newydd, yw gwarchod y pethau hynny a helpodd creadigrwydd i ffynnu. Yn hyn o beth, nid arhoswyr ydym mwyach ond gwarchodwyr.

Mae cymaint o agweddau ar y sectorau diwylliannol ledled Ewrop wedi gweu i'w gilydd ac yn ddibynnol ar ei gilydd. Felly gall eu datod deimlo fel datod pwythau tapestri Bayeux...a beth bynnag mae rhywun yn ei feddwl am naratif y cyfnas ei hun, mae ei werth diwylliannol yn mynd y tu hwnt i'r canrifoedd ac yn ein hatgoffa o'r angen i gydweithio er heddwch a ffyniant.

Wrth i gyd-drafodaethau ddechrau a buddiannau wthio yn erbyn ei gilydd am sylw, rhaid i ni beidio ag anghofio bod y sectorau diwylliannol a chreadigol yn fusnes mawr i Ewrop.

Yn 2015 cyfrannodd y Diwydiannau Creadigol dros £87 biliwn at economi'r DU – 5.3% o gyfanswm Gwerth Ychwanegol Gros y DU, gan gyflogi tua 2m o bobl. Mae hyn yn cynrychioli twf o 7% ers 2014, o gymharu â 2.3% ar gyfer yr economi gyfan. Byddai'n hawdd iawn gwrthod gadael i Sinderela fynd i'r ddawns er ei bod wedi ei gwisgo ar gyfer yr achlysur.

Fodd bynnag, ni ddylem gael ein hudo gan ystadegau yn unig. Nid wyf yn argymhell mesur ein sector drwy niferoedd yn unig ond drwy bwysleisio hefyd yr hyn y mae'n ei gynnig i ansawdd ein bywyd yn gyffredinol.

Yr hyn sydd gennym yn Ewrop, yn y bôn, yw “un farchnad y meddwl” – un rydym ni yn y sector celfyddydol a diwylliannol yn ei choleddu a'i pharchu. Mae hwn yn ymadrodd a fathwyd gan Geraint Talfan Davies mewn papur diweddar ar gyfer y Sefydliad Materion Cymreig a archwiliodd effaith Brexit ar addysg a diwylliant yng Nghymru a'r DU. Mae'r papur yn pwysleisio nad oes monopoli ar syniadau na diwylliant – maent yr un mor debygol o ddeillio o gymuned ddfreintiedig yn y gorllewin a'r Cymoedd, neu Silesia ag y byddent o Ferlin, Bucharest neu Birmingham.

A gwyddom fod grym y celfyddydau a diwylliant yn cyrraedd ymhell y tu hwnt i'r ymateb emosiynol i berfformiad neu'r budd ariannol a geir drwy werthu paentiad. Mae'r celfyddydau yn goleuo ac yn rhoi bywyd i ystod eang o strategaethau sy'n sail i fywyd cyhoeddus. O'r celfyddydau ac iechyd i dwristiaeth ddiwylliannol, celfyddyd gyhoeddus i adfywio canol trefi, mae'r celfyddydau yn rhoi ystyr, dilysrwydd a mwynhad yn ein bywydau beunyddiol. Maent yn creu ac yn cynnal swyddi, yn cyfoethogi gwasanaethau addysg, yn dwyn pobl at ei gilydd, yn gwella ansawdd bywyd...

Sy'n dod â fi at effaith fawr **gyntaf** Brexit yr hoffwn ei nodi – **sef yr un ar bobl a dinasyddiaeth.**

Pobl yw prif ased y sector a'u lingua franca yw cydweithredu. Mae cyfyngu ar eu gallu i symud a gweithio mewn partneriaeth yn debygol o gael canlyniadau arwyddocaol iawn i economi greadigol Ewrop. Eisoes mae gennym fwllch sgiliau yn yr economi greadigol ac mae'r gallu i recriwtio o'r tu hwnt i'n ffiniau ni yn ffactor pwysig iawn o ran twf ein heconomi greadigol. Mae gan sefydliadau a busnesau fel ei gilydd bryderon mawr ynghylch colli'r sgiliau a allai ddatblygu yn sgîl Brexit.

Felly sut gallwn **warchod** yr hyn sy'n gweithio, o gofio'r sefyllfa rydym ynddi?

Mae dod o hyd i ffyrdd o **warchod** rhyddid **gweithwyr**, os nad **pobl**, i symud, yn nod **hollbwysig**, a gallai trafodaethau sy'n mynd rhagddynt ynghylch fisas dros dro tymor byr yn ogystal â digwyddiadau lle nad oes angen fisa fod yn rhan o'r trefniant terfynol. Ond y cam cyntaf ar y daith hon yw penderfynu ar ddyfodol holl ddinasyddion yr UE yn y DU, yn ogystal â dinasyddion Prydeinig ym mhob rhan o'r UE.

Beth bynnag a fydd yn digwydd, mae'r sector hwn yn dibynnu ar ddull partneriaeth sy'n galluogi artistiaid a gweithwyr creadigol i symud i'r llefydd lle mae gwaith ar gael.

Ac o ran teithio – a theithiau rhyngwladol cerddorfeydd a chwmnïau theatr a dawns – mae symud yn rhwydd rhwng ffiniau heb rwystrau cyfreithiol i'ch llethu yn **safon aur** y mae'n werth anelu ati.

Gallwn ddisgwyl i'r materion hyn ddatblygu gyda chryn sensitifrwydd ynghylch y ffin yn Iwerddon.

Mae'r gydberthynas hirsefydlog rhwng Cyngorau Celfyddydau Gogledd Iwerddon a'r Weriniaeth yn seiliedig ar alluogi amgylchedd niwtral yn wleidyddol sy'n caniatáu i artistiaid weithio'n ddi-dor ar draws y ddwy awdurdodaeth. Gall Brexit olygu na fydd sefydliadau celfyddydol sy'n gweithredu ar gyllidebau bach iawn heb lawer o hyblygrwydd ariannol yn gallu lleddfu na rheoli effeithiau amrywiadau mewn arian cyfred, trethiant a rheoleiddio symudiadau.

Yr **ail** fater rwyf am ei godi yw **effaith Brexit ar raglenni cyllido Ewrop.**

Rwy'n siŵr eich bod yn gyfarwydd ag effaith sylweddol cyllid Interreg ac ERDF ledled y DU. O'r Sage yn Gateshead i Home ym Manceinion, o Ikon yn Birmingham i Pontio ym Mangor, mae rhaglenni cyllido Ewrop wedi helpu i drawsnewid seilwaith diwylliannol y DU.

Ond er bod y cronfeydd strwythurol wedi cael eu llunio i helpu rhanbarthau tlotach i geisio dal i fyny â gweddill economi'r UE, fel y dadleuodd adroddiad diweddar gan DEMOS, mae risg go iawn y bydd dileu'r rhaglenni hynny yn cael effaith fwy andwyol ar y rhanbarthau hynny.

Felly gallai sicrhau bod y DU yn parhau i chwarae ei rhan mewn rhaglenni aml-ochrol arwain at fuddiannau sylweddol, buddiannau sydd yr un mor gymwys i'r UE ag y maent i'r DU. Pwysleisiaf nad ofn colli cyllid yn unig yw hyn. Y rhwydweithiau a'r partneriaethau y mae'r rhaglen Ewrop Greadigol wedi eu meithrin, y seilwaith a ddatblygwyd ar gyfer ein sector, arbenigedd gweithio yn draws-wladol – dyma'r pethau na ellir eu mesur mewn termau ariannol yn unig. Ac ni all effaith dileu'r cyllid hwnnw – boed yn Ewrop Greadigol neu Gronfeydd Strwythurol - gael ei lleddfu yn syml gan yr hyn a gynigir sy'n benodol i'r wlad yn lle'r cyllid a gollir.

Mae'r gyfres deledu lwyddiannus "Y Gwyll" yn enghraifft o hyn. Wedi ei hariannu drwy faes Cyfryngau rhaglen Ewrop Greadigol, cafodd ateb ditectif gwledig Cymru i genre noir Sgandinafia ei ffilmio gefn wrth gefn yn Gymraeg a Saesneg a'i darlledu ar S4C a sawl llwyfan arall ar y BBC. Ers hynny, mae wedi cael ei gwerthu i fwy na 30 o wledydd ac mae ar gael ar Netflix ledled y byd.

Gwêl Ed Thomas, Cyfarwyddwr Fiction Factory, cynhyrchydd y gyfres, y budd diwylliannol ehangach i'r UE nid yn unig mewn perthynas â'i gwmi, â Chymru, neu economi'r DU. Dywed, a dyfynnaf. "Celebrating and nurturing the diversity

of culture and language across Europe is vital, and our partnership has given a voice to a small country, its culture and its people.” (Mae dathlu a meithrin y diwylliannau a’r ieithoedd amrywiol ledled Ewrop yn hollbwysig, ac mae ein partneriaeth wedi rhoi llais i wlad fach, ei diwylliant a’i phobl.)

Byddai cadw ein haelodaeth o Ewrop Greadigol ochr yn ochr â phartneriaid eraill nad ydynt yn rhan o’r UE, naill ai fel aelod llawn neu drwy ryw fath o gytundeb cyswllt, yn helpu ein sector yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol wrth ddatblygu sgiliau, a chreu marchnadoedd newydd yn y tymor hwy ar gyfer cwmnïau sy’n cymryd rhan.

O safbwynt y sector creadigol, mae buddiannau cymhellol i aelodaeth y DU o’r rhaglen Ewrop Greadigol. Ond gofynnaf gwestiwn arall. O gofio bod diwylliant wedi ei ddatganoli o fewn y DU, a allai gwledydd cyfansoddol y DU ddod yn aelodau o Ewrop Greadigol yn eu rhinwedd eu hunain? Efallai bod rhai cynseiliau ar gael yn y Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd neu Interreg?

Y trydydd maes yr wyf am gyfeirio ato yw **effaith Brexit ar yr economi creadigol a'r economi ehangach.**

Os mai rhyddid gweithwyr i symud yw rhan hanfodol y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol, eiddo deallusol yw ei gylchrediad. Dim ond yn draws-wladol y gall eiddo deallusol gael ei herio yn yr oes sydd ohoni. Mae Cwmni Buddiannau Cymunedol Lloegr yn nodi, yn ail chwarter 2016 yn unig, fod pobl wedi cael mynediad ar-lein i tua 78 miliwn o draciau cerddoriaeth a 51 miliwn o ddarnau o ffilm a chynnwys teledu yn anghyfreithlon a bod problemau sylweddol hefyd o ran nwyddau ffisegol ffug a fewnforir.

Dylem edrych yn awr ar fodolau partneriaeth newydd sy'n adeiladu ar gydfuddiannau. Byddai hyn yn cynnwys cadw rhai egwyddorion allweddol a bennwyd gan yr UE fel fframwaith gwlad tarddiad yr UE yn ogystal â'r diffiniad cyfredol o waith Ewropeaidd.

Mae angen i'r DU a'r UE barhau i ymwneud yn weithredol â'r Farchnad sengl ddigidol ac yn enwedig â'r ddeddfwriaeth hawlfraint newydd. Bydd hyn yn

bwysig wrth lunio cydweithrediad rhyngwladol yn y dyfodol ar ddiogelu eiddo deallusol.

Mae'n bwysig ein bod yn parhau i allu cyfnewid data rhwng y DU a'r UE mewn ffordd gyfrifol a heb gyfyngiadau beichus fel rhan o'n cydberthynas newydd.

Dylai'r ddwy ochr ymwrthod â'r cam o osod tariffau ar nwyddau a gwasanaethau diwylliannol – o lenyddiaeth i gerddoriaeth, gwasanaethau pensaernïol i ddarpariaethau teithio.

Mae gan **bob un ohonom** lawer i'w golli os lladdwn yr iâr sydd fwyaf tebygol o ddodwy wy aur.

Yn olaf, ond nid lleiaf, dylem barhau i sicrhau ei bod yn bosibl i'r cyhoedd barhau i gefnogi sector y cyfryngau a'r sector creadigol o fewn cytundebau masnach newydd.

Dylid cytuno ar yr eithriad Diwylliannol ar gyfer rhannau mawr o'r diwydiannau creadigol o gyd-drafodaethau masnach yr UE a'i gynnal. Mae hyn yn bwysig am ei fod yn galluogi'r ymyriadau polisi cyhoeddus sy'n cefnogi buddsoddiad cyhoeddus mewn system darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac amrywiaeth o

ymyriadau eraill sy'n cefnogi creadigrwydd, sefydliadau celfyddydol a busnesau creadigol.

Yn y DU, mae buddsoddiad cyhoeddus drwy gyfuniad o gymorth grant ac arian y loteri genedlaethol i'r celfyddydau cymorthdaledig wedi darparu sylfaen meithrin hollbwysig ar gyfer y diwydiannau creadigol masnachol.

Ni chaiff hyn ei wneud ar ei ben ei hun. Rydym yn ffynnu ar gydweithredu ag artistiaid a chwmnïau creadigol ledled yr UE ac yn rhyngwladol er gwaethaf naratif dryslyd Brexit.

Felly, wrth i mi ddod i derfyn, rwy'n eich annog i ofyn i'ch llywodraethau cenedlaethol helpu'r sector creadigol yn y DU a thu hwnt yn ein nod o warchod y dull partneriaeth – yn ddiwylliannol ac yn economaidd y tu hwnt i Brexit. Mae angen i'n cydberthynas newydd fod yn Ewropeaidd ac yn fyd-eang o ran ei rhagolygon mewn marchnad fyd-eang gystadleuol iawn, yr amcangyfrifir ei bod yn werth mwy na \$2 triliwn bob blwyddyn – gan fynd y tu hwnt i Gynnyrch Domestig Gros *cyfan* India – a chyflogi dros 30 miliwn o bobl. Ac mae cyfleoedd sylweddol am dwf pellach dros y blynyddoedd i ddod.

Mae effaith ddiwylliannol Brexit yn effeithio ar ffyniant Ewrop. Ac mae'n effeithio ar ein dinasyddion – nid yn unig am ei fod yn amddifadu cenhedlaeth o'r hunaniaeth y maent wedi ei chymryd yn ganiataol, ond hefyd am ei fod yn ymyrryd o bosibl â'n gallu i fod yn ddinasyddion byd-eang gweithredol a all ddysgu ieithoedd, astudio dramor, mwynhau a gwerthfawrogi diwylliannau cyfoethog heblaw am ein diwylliant ni.

Peidied neb â chamgymryd. Rwy'n credu'n gryf bod cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau diwylliannol rhyngwladol i ddinasyddion yn *sylfaenol* i feithrin cydberthnasau cymunedol blaengar sy'n helpu i oresgyn yr estrongasedd sydd ar gynnydd ar draws rhannau helaeth o Ewrop yn ôl pob golwg, sef rhywbeth sy'n peri gofid.

Ond er fy mod i yn bersonol yn pryderu efallai am ddyfodol fy mhlant o ran y gamddealltwriaeth ddiwylliannol sy'n amlwg yn lleol ac yn fyd-eang ... rwy'n parhau i fod yn obeithiol y bydd eu cenhedlaeth nhw, o gael y cyfle, yn gwneud pethau'n wahanol. Mae'r sector rwy'n gofidio cymaint amdano yn cynnig rhan o'r ateb yn yr ystyr ei fod yn meithrin gobaith, dilysrwydd a dealltwriaeth sy'n croesi ffiniau a rhaniadau.

Mae diwylliant a chreadigrwydd yn bwysig i *bob un* ohonom.

A dyna reswm arall dros wneud hyn yn iawn.